Youth Justice Board
Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

# Cynllun busnes

2025 - 2026



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Pwy ydym ni | 5 |
| Ein gwerthoedd | 6 |
| Beth rydym yn ei wneud | 7 |
| Ymrwymiadau yn 2025-2026 | 8 |
| Ein swyddogaethau corfforaethol | 14 |
| Ein cyllid | 19 |

# Rhagair



Mae'r cynllun busnes hwn yn amlinellu cynllun eofn a chredadwy ar gyfer y ffordd y bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn parhau i gyfrannu tuag at gymdeithas decach a mwy diogel, drwy atal troseddu a sicrhau gwell canlyniadau i blant, dioddefwyr a chymunedau, mewn ffordd sy'n cefnogi gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus.

Rydym yn dechrau'r flwyddyn fusnes newydd hon ar sylfaen Adolygiad Corff Cyhoeddus a gwblhawyd. Mae'r adolygiad yn garreg filltir hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn addas i'n diben ac yn camu ymlaen i'r pum mlynedd nesaf ag ymdeimlad clir o bwrpas ac uchelgais. Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda gweinidogion er mwyn pennu ein rôl wrth siapio dyfodol cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr pan gyhoeddir ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad terfynol a'r argymhellion. Rwy'n ffyddiog y bydd yr adolygiad yn cadarnhau gwerth ein rôl, ac y bydd ein hymateb i'r adolygiad yn sicrhau ein bod yn parhau'n effeithiol, yn effeithlon, ac yn gydnaws ag uchelgeisiau'r Llywodraeth ar gyfer diwygio.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y cyfnod hwn: llywodraeth newydd ag egni newydd, gweinidogion newydd â phwyslais newydd, a chenadaethau clir sy'n gydnaws â'n blaenoriaethau hirsefydlog ninnau – gan greu Strydoedd Mwy Diogel a rhoi Cyfle i Blant. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut yn union y byddwn yn cefnogi'r nodau hyn, drwy helpu i ddatblygu Partneriaethau Atal a Hybiau Dyfodol Ifanc, er mwyn rhannu'r arferion gorau sy'n lleihau trais yn erbyn menywod a merched ac amddiffyn plant rhag camfanteisio a thrais.

Yr hyn sy'n rhoi hyder i ni y bydd y cynllun hwn yn llwyddiannus yw eglurder a dyfnder ein hymrwymiadau. Rydym yn:

- **Hybu safonau a gwelliant** ym mhob gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid lleol, â chefnogaeth goruchwyliaeth gadarn ac adolygiadau o berfformiad.

- **Hybu tegwch** drwy ymrwymiad penodol er mwyn mynd i'r afael â gwahaniaethu hiliol parhaus a chefnogi plant sydd ag anghenion addysgol arbennig.

- **Seilio popeth rydym yn ei wneud ar dystiolaeth**, gan sicrhau bod ein cyngor i'r llywodraeth, ein defnydd o gyllid grant, a chefnogaeth i'r sector i gyd yn seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio.

Nid ydym yn dechrau o ddim. Drwy gyflawni ein swyddogaeth statudol o fonitro, cynghori, ariannu, ymchwilio a rhannu'r arferion gorau, rydym yn adeiladu ar lwyfan cryf. Mae'r ymrwymiadau manwl sydd ar dudalennau 9 i 13 yn cysylltu'n uniongyrchol â'n hamcanion strategol ac â chenadaethau ehangach y Llywodraeth, gan olygu ei bod yn haws olrhain ein cyfraniad a'n heffaith.

Gwyddom hefyd sut i fesur cynnydd. Mae’r cynllun hwn yn cynnwys buddion clir a dangosyddion perfformiad mewnol i’n cadw’n atebol ac ar y trywydd cywir, â thryloywder drwy adroddiadau rheolaidd ac archwiliadau allanol.

Yn ychwanegol at hyn, mae ein swyddogaethau corfforaethol – sy’n rhychwantu cyllid, arloesi digidol, gwrth-hiliaeth, a datblygu pobl – yn sicrhau ein bod yn gweithredu fel corff cyhoeddus o safon uchel, sy’n gallu addasu ac arwain y system cyfiawnder ieuenctid mewn amgylchedd sy’n newid.

Yn bennaf oll, mae’r cynllun hwn yn adlewyrchu ein cred ddiwyro ym mhotensial plant. Drwy eu gweld fel plant i ddechrau, eu trin yn deg, a’u helpu i ffynnu, rydym yn helpu i greu’r amodau ar gyfer cymunedau mwy diogel â llai o ddioddefwyr.

Gwyddom beth mae angen ei wneud. Mae’r cynllun hwn yn dangos ein bod yn gwneud hynny. Edrychaf ymlaen at weithio gyda phob un ohonoch sy’n darllen y cynllun hwn, er mwyn parhau i wneud gwahaniaeth yn ystod y flwyddyn nesaf.

**Steph Roberts-Bibby**

**Prif Weithredwr y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid**

# Pwy ydym ni

Yn ogystal â sefydlu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, roedd Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn diffinio prif nod y system cyfiawnder ieuenctid fel atal plant rhag troseddu. Mae gweithio tuag at hyn yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud, ac i'n cenhadaeth a'n gweledigaeth.

**Ein cenhadaeth**

**"Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yw'r unig gorff statudol sy'n goruchwylio'r system cyfiawnder ieuenctid gyfan. Rydym yn darparu cyngor ac arweinyddiaeth annibynnol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ysgogi gwelliannau sy'n cynyddu canlyniadau cadarnhaol plant ac sy'n atal troseddu."**

**Ein gweledigaeth**

**"System cyfiawnder ieuenctid sy'n trin plant fel plant i ddechrau, gan eu trin yn deg a'u helpu i adeiladu ar eu cryfderau er mwyn gallu gwneud cyfraniad adeiladol i gymdeithas. Bydd hyn yn atal troseddu ac yn creu cymunedau mwy diogel â llai o ddioddefwyr."**

## Ein cenhadaeth

Mae ein cenhadaeth yn diffinio ein rôl a'n pwrpas unigryw yn y system cyfiawnder ieuenctid, ac mae'n dull gweithredu yn adlewyrchu tair agwedd ar ein rôl:

- Cefnogi gwelliant drwy'r system cyfiawnder ieuenctid ac wrth ddarparu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol.
- Rhoi gwybod i'r cyhoedd, ymarferwyr, a llunwyr polisïau, gan gynnwys gweinidogion, am weithrediad y system cyfiawnder ieuenctid.
- Dylanwadu ar ymarferwyr a llunwyr polisïau i fabwysiadu tystiolaeth Plentyn yn Gyntaf[1]. Mae hyn yn golygu trin plant fel plant a chefnogi eu hawliau, adeiladu hunaniaeth gymdeithasol, cydweithio â phlant a'u dargyfeirio oddi wrth stigma, er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, dioddefwyr a chymunedau.

## Ein gweledigaeth

Mae ein gweledigaeth yn amlinellu uchelgais gyffredinol ar gyfer y system cyfiawnder ieuenctid drwy ddisgrifio sut y gall gael effaith ehangach ar y cymunedau lle mae plant yn byw, yn ogystal â'r brif nod o atal troseddu.


Mae'r fframwaith Plentyn yn Gyntaf[1] yn crynhoi degawdau o ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol, sy'n cael ei drosi i bolisi ac ymarfer yn y system cyfiawnder ieuenctid. Mae'n adlewyrchu tystiolaeth mai'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau troseddu yw drwy rymuso plant i fod y fersiynau gorau ohonyn nhw eu hunain a chyfrannu'n gadarnhaol i'r byd o'u cwmpas.

[1] Canllaw i Blentyn yn Gyntaf – Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr (Hydref 2022) – Hwb Adnoddau Cyfiawnder Ieuenctid

# Ein gwerthoedd

Mae ein diwylliant yn seiliedig ar bum gwerth sy’n diffinio ein credoau a beth mae’n ei olygu i weithio i’r sefydliad.

Mae ein hymrwymiad ar y cyd i’r gwerthoedd hyn yn ein gyrru tuag at ein huchelgais o fod yn sefydliad sector cyhoeddus rhagorol o safon uchel, ac rydym yn ymwreiddio’r gwerthoedd creiddiol hyn ym mhob agwedd ar ein sefydliad. Anogir pawb yn y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i roi sylw i’r gwerthoedd hyn yn eu gwaith bob dydd.




**Cynhwysol –** herio gwahaniaethu a hyrwyddo cynhwysiant a chydraddoldeb ym mhopeth rydym yn ei wneud, yn ogystal â dileu rhagfarn yn y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a’r system cyfiawnder ieuenctid.

**Cydweithredol –** cydweithio â’n partneriaid cyfiawnder ieuenctid ac annog gweithio mewn partneriaeth er mwyn diwallu anghenion plant, dioddefwyr a’u cymunedau.


**Uniondeb –** dangos uniondeb drwy gyflawni ein dyletswyddau’n gyfrifol ac ymddwyn yn broffesiynol bob amser.

**Atebol –** bod yn atebol yn ein gweithredoedd a’n perfformiad wrth helpu’r sector i wella.

**Eofn –** sicrhau ein bod yn parhau’n seiliedig ar dystiolaeth a hyrwyddo llais y plentyn yn eofn.

# Beth rydym yn ei wneud

Diffinnir saith swyddogaeth statudol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid hefyd yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998, ac rydym yn atebol i weinidogion am eu cyflawni.




Mae'r dull o gyflawni'r swyddogaethau statudol hyn wedi esblygu dros y 25 mlynedd diwethaf mewn ymateb i'r dirwedd wleidyddol a diwylliannol, a datblygiadau yn y dystiolaeth ynglŷn â beth sydd fwyaf effeithiol wrth ddiwallu anghenion plant er mwyn atal troseddu, lleihau dioddefwyr a chreu cymunedau mwy diogel.

Rydym hefyd yn cael ein dylanwadu gan argymhellion adolygiadau mewnol ac allanol ac unrhyw arweiniad a gawn gan y gweinidogion sy'n gyfrifol am gyfiawnder ieuenctid.

Roedd y Ddeddf yn nodi y dylai pob awdurdod lleol sefydlu tîm troseddwyr ifanc (y cyfeirir ato'n aml nawr fel gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid) a bwrdd rheoli cyfiawnder ieuenctid lleol sy'n gyfrifol am gydlynu gwasanaethau yn ei ardal. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn gyfrifol am fonitro'r gwasanaethau hynny a phennu cyfeiriad strategol ar gyfer y system cyfiawnder ieuenctid.

# Ymrwymiadau yn 2025-2026

Mae strategaeth dair blynedd[2] bresennol y Bwrdd yn amlinellu'r amcanion sy'n ein llywio i gyflawni ein swyddogaethau statudol.

Mae'r tabl ar dudalennau 9-13 yn disgrifio'r gweithgareddau y byddwn yn eu cyflawni yn 2025 – 2026 er mwyn gwireddu'r amcanion hynny, a'r ffrydiau gwaith a fydd yn cefnogi Cenadaethau'r Llywodraeth bresennol sy'n berthnasol i'r system cyfiawnder ieuenctid.

| | |
|---|---|
| **Amcanion strategol 2024 - 2027** (gweler colofnau 1 – 3 isod) | |
| **Amcan 1:** Cefnogi gwelliannau i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol | |
| **Amcan 2**: Canolbwyntio ar fynd i'r afael â gwahaniaethau | |
| **Amcan 3**: Ysgogi mabwysiadu polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth | |
| **Cenadaethau'r Llywodraeth** (gweler colofnau A – J isod) | |
| **Strydoedd Mwy Diogel** | Mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol (A) |
| | Cynllun i gael cyllyll oddi ar ein strydoedd (B) |
| | Rhwydwaith o hybiau Dyfodol Ifanc (C) |
| | Datblygu Partneriaethau Atal lleol (D) |
| | Atal Trais yn Erbyn Menywod a Merched (E) |
| | Amddiffyn dioddefwyr (F) |
| **Chwalu Rhwystrau sy'n Atal Cyfleoedd** | Rhoi sicrwydd i deuluoedd (G) |
| | Cefnogi'r dechrau gorau i fywyd (H) |
| | Codi safonau ysgolion (I) |
| | Gwella mynediad at y celfyddydau, cerddoriaeth a chwaraeon (J) |

[2] Cynllun Strategol Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr 2024-27 - GOV.UK

| GWEITHGAREDD YR YMRWYMWYD IDDO A CHANLYNIAD | AMCANION STRATEGOL 2024 - 2027 Y BWRDD CYFIAWNDER IEUENCTID | | | CENADAETHAU'R LLYWODRAETH | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *"STRYDOEDD MWY DIOGEL"* | | | | | | *"CHWALU RHWYSTRAU SY'N ATAL CYFLEOEDD"* | | | |
| | 1 | 2 | 3 | A | B | C | D | E | F | G | H | I | J |
| **SWYDDOGAETH STATUDOL 1:** ***Monitro a goruchwylio gweithrediad y system cyfiawnder ieuenctid.*** | | | | | | | | | | | | | |
| **Monitro gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn unol â disgwyliadau'r Fframwaith Goruchwylio**[3]<br>*Adolygu perfformiad gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a phartneriaethau a'u cymharu â disgwyliadau a safonau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a darparu cymorth i godi safonau ac efelychu'r arferion gorau.* | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ |
| **Datblygu ein llwyfannau a'n cynnyrch gwybodaeth a mewnwelediadau**<br>*Darparu dadansoddiad i gefnogi goruchwylio, cynllunio, gwneud penderfyniadau a chyngor.* | ✅ | ✅ | ✅ | | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ |
| **Monitro, dadansoddi a rhannu canfyddiadau o ddigwyddiadau difrifol yn ymwneud â phlant**<br>*Cyflwyno cyhoeddiad blynyddol â dadansoddiad o hysbysiadau digwyddiadau difrifol i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.* | ✅ | ✅ | | | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | | | | | |
| **SWYDDOGAETH STATUDOL 2:** ***Rhoi cyngor annibynnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i weinidogion a swyddogion yn Whitehall a Llywodraeth Cymru.*** | | | | | | | | | | | | | |
| **Datblygu safbwyntiau clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar faterion cyfiawnder ieuenctid** | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ |

[3] Fframwaith goruchwylio cyfiawnder ieuenctid - GOV.UK

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Darparu cyngor annibynnol o safon uchel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar themâu, gan gynnwys niwed ar-lein, dioddefwyr a merched.* | | | | | | | | | | | | | |
| **Darparu gwybodaeth ar gyfer polisi a newid deddfwriaethol**<br>*Cydweithio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol sydd â diddordeb yn y system cyfiawnder ieuenctid drwy ein fforymau sefydledig, er mwyn hybu dull gweithredu sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth.* | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **SWYDDOGAETH STATUDOL 3:** ***Gweinyddu a dosbarthu cyllid grant.*** | | | | | | | | | | | | | |
| **Dyrannu cyllid grant creiddiol i awdurdodau lleol**<br>*Dyrannu cyllid grant creiddiol cyfiawnder ieuenctid yn fuan i 157 o awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr.* | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | |
| **Adnewyddu telerau ac amodau'r grant**<br>*Datblygu a gweithredu telerau ac amodau newydd sy'n adlewyrchu nodau ac amcanion y system cyfiawnder ieuenctid.* | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | | |
| **Cyllid grant creiddiol cyfiawnder ieuenctid**<br>*Cefnogi gweinidogion a swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ddatblygu cynigion ar gyfer fformiwla newydd, decach, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer dyrannu cyllid.* | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | |
| **Gweinyddu cyllid wedi'i dargedu i gefnogi arloesi drwy brosiectau braenaru**<br>*Cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau thematig ar anghydraddoldeb, llety i blant a gwella'r defnydd o ryddhau dros dro o'r ddalfa.* | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | |
| **SWYDDOGAETH STATUDOL 4:** ***Rhoi cymorth i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfarpar i'r system cyfiawnder ieuenctid.*** | | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu, cynnal a gwella data a systemau gwybodaeth a ddarperir i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid**<br>*Parhau â chontractau i ddarparu, cynnal a gwella system Fframwaith Ceisiadau Cyfiawnder Ieuenctid (YJAF).* | ✅ | | | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ |
| **SWYDDOGAETH STATUDOL 5:** ***Coladu a chyhoeddi gwybodaeth am berfformiad y system cyfiawnder ieuenctid.*** | | | | | | | | | | | | | |
| **Dadansoddi a defnyddio data o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA)**<br>*Cyhoeddi Papur Gwybodaeth Ansawdd a Methodoleg DPA, a chymhwyso DPA i'r Fframwaith Goruchwylio.* | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | | | ✅ | ✅ | | | ✅ | |
| **Ystadegau Blynyddol Cyfiawnder Ieuenctid 2024 - 2025**<br>*Datganiad ystadegol blynyddol â data ar y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr.* | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ |
| **Llawlyfrau data, pecynnau cymorth a dangosfyrddau**<br>*Cynhyrchu llawlyfr chwarterol Crynodeb o Ddata Cyfiawnder Ieuenctid a rhannu â gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid.* | ✅ | ✅ | ✅ | | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ |
| **Archwilio, awtomeiddio a chysylltu data**<br>*Archwilio opsiynau ar gyfer cysylltu data Assetplus â setiau data'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a setiau data ehangach.* | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ | ✅ |
| **Cyhoeddi adolygiad cyfnodol o'r modd y mae gwahaniaethau ar sail hil yn effeithio ar blant yn eu blynyddoedd cynnar ac yn y system cyfiawnder ieuenctid** | ✅ | ✅ | ✅ | | ✅ | ✅ | | ✅ | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Cyhoeddi adroddiad ar anghydraddoldeb ar wahanol adegau yn y system cyfiawnder ieuenctid.* | | | | | | | | | | | | | |
| **SWYDDOGAETH STATUDOL 6:** ***Comisiynu ymchwil i gefnogi datblygu ymarfer.*** | | | | | | | | | | | | | |
| **Ymchwil mewnol ac wedi'i gomisiynu**<br>*Cwmpasu, cyflawni a chyhoeddi ymchwil mewnol ac wedi'i gomisiynu'n allanol, gan gynnwys prosiectau a fydd yn gwerthuso'r offeryn atal/dargyfeirio; cymhwyso'r dull Plentyn yn Gyntaf i ymarfer; a chamfanteisio ar blant.* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Cydlynu'r Rhwydwaith Cysylltu Academaidd**<br>*Cynnal perthnasoedd a chydweithio sydd o fudd i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac i'r byd academaidd.* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **SWYDDOGAETH STATUDOL 7:** ***Nodi a rhannu arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar draws y sector.*** | | | | | | | | | | | | | |
| **Cynnal Canllawiau Rheoli Achosion**<br>*Cefnogi mabwysiadu Canllawiau Rheoli Achosion a gwneud diweddariadau thematig.* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | | | | |
| **Uwchgynhadledd Arweinwyr Cyfiawnder Ieuenctid 2026**<br>*Trefnu'r uwchgynhadledd flynyddol.* | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| **Gweithlu'r sector cyfiawnder ieuenctid**<br>*Hwyluso'r cyngor datblygu gweithlu.* | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | | | | | |
| **Rhaglen Elevate**<br>*Adolygu model cyflawni'r rhaglen i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion cyfranogwyr.* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | | | | |
| **Lledaenu ymarfer addawol** | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Cynnal ein strategaeth gyfathrebu a rhannu ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth â'r sector cyfiawnder ieuenctid.* | | | | | | | | | | | | | |
| **Cymru:** ***Cydweithio â Llywodraeth Cymru ac â gwasanaethau wedi'u datganoli, a heb eu datganoli, yng Nghymru er mwyn cyflawni ein hamcanion strategol a'n swyddogaethau statudol*** | | | | | | | | | | | | | |
| *Monitro perfformiad gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid; nodi a hyrwyddo tystiolaeth ac ymchwil; a gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni'r weledigaeth yng Nglasbrint Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru a meysydd eraill sydd â ffocws strategol.* | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

# Ein swyddogaethau corfforaethol

Mae ein swyddogaethau corfforaethol yn galluogi'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i weithredu fel sefydliad effeithlon, cynhwysol ac effeithiol o safon. Maent yn rheoli swyddogaethau hanfodol sy'n angenrheidiol i weithrediad y sefydliad, ac yn sicrhau bod ein polisïau a'n gweithdrefnau yn gyfredol ac yn cael eu cymhwyso mor effeithlon ag sy'n bosibl.

## Adolygiad Corff Cyhoeddus

Yn 2025 - 2026 rydym yn barod i ymateb i ganfyddiadau ac argymhellion adolygiad corff cyhoeddus y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, er mwyn sicrhau bod ein swyddogaethau'n parhau'n ddefnyddiol ac yn angenrheidiol i gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer y system cyfiawnder ieuenctid, a'n bod yn gweithredu'n effeithiol o ran gwerth am arian.

| Gweithgaredd corfforaethol | Beth y byddwn yn ei wneud |
|---|---|
| **Ein hymrwymiad i wrthwynebu hiliaeth a gwahaniaethu, a hybu cydraddoldeb hiliol** | **Datganiad Gwrth-hiliol:** Diweddaru ein datganiad cyhoeddedig i adlewyrchu cynnydd rydym wedi ei wneud yn 2024 - 2025 a nodi ein hymrwymiadau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.<br>**Strategaeth Wrth-hiliol:** Adolygu ein strategaeth er mwyn monitro gweithgaredd sydd ar y gweill neu sydd wedi ei gwblhau a nodi cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau newydd.<br>**Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru:** Cefnogi gweithrediad y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol er mwyn dileu hiliaeth a hybu cydraddoldeb hiliol yn holl wasanaethau cyhoeddus Cymru ac yng nghymdeithas Cymru. |
| **Rheolaeth ariannol** | Rheoli a monitro'r holl weithgaredd ariannol ar gyfer y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid drwy gysylltu â thimau cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau er mwyn darparu cyngor ariannol strategol ac adroddiadau cadarn i'r Swyddog Cyfrifyddu; meithrin diwylliant o werth am arian a chynhyrchiant; sicrhau effeithlonrwydd cyllidebol; hybu cydymffurfiad ariannol; a chefnogi dulliau o wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ffeithiau gan ein Bwrdd a'r Uwch Dîm Arwain. |

| | |
|---|---|
| **Strategaeth Pobl** | Cyflawni ein Strategaeth Pobl ar gyfer 2025 – 2027 er mwyn cefnogi ein nod o fod yn sefydliad a chyflogwr sector cyhoeddus rhagorol, gan wneud hynny fel a ganlyn:<br><br>➢ Denu, recriwtio a chadw'r talentau amrywiol y mae arnom eu hangen o fewn ein cyllideb.<br>➢ Hyrwyddo ymdeimlad o berthyn fel sefydliad cynhwysol, tosturiol, sy'n mynd allan o'i ffordd i fod yn wrth-wahaniaethol a gwrth-hiliol. Sefydliad ag arweinyddiaeth effeithiol a chefnogol, sy'n gwerthfawrogi cryfderau ei bobl, a lle mae pobl yn cael eu hannog i werthfawrogi ei gilydd.<br>➢ Ymwreiddio diwylliant o gyflawni rhagorol, atebolrwydd a chyfrifoldeb, wedi'i wreiddio yn ein gwerthoedd, ag arweinyddiaeth sy'n ysbrydoli ac yn grymuso.<br>➢ Datblygu a chefnogi ein pobl i helpu i adeiladu a chynnal gwydnwch unigol a sefydliadol. |
| **Strategaeth Ddigidol a Data** | Cymhwyso ein Strategaeth Ddigidol a Data i nodi sut y byddwn yn defnyddio data ac offer o safon uchel i gael mewnwelediadau, ac i helpu i wneud penderfyniadau i gefnogi ein dyletswydd gyfreithiol i oruchwylio a gwella'r system cyfiawnder ieuenctid, a gwella profiad plant sy'n dod i gysylltiad â hi.<br><br>Byddwn yn cynhyrchu cynhyrchion mewnwelediadau mewnol rheolaidd sy'n defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gafwyd drwy'r llwyfannau gwybodaeth, a gynlluniwyd er mwyn darparu gwybodaeth i'r Bwrdd a'r Uwch Dîm Arwain i gefnogi gwaith goruchwylio, cynllunio, gwneud penderfyniadau a chyngor.<br><br>Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ar draws y llywodraeth ac yn ystyried sut y gall technolegau a datblygiadau newydd, megis deallusrwydd artiffisial, ein helpu i wneud arbedion effeithlonrwydd a chefnogi ein gwaith. |
| **Deddf yr Iaith Gymraeg** | Gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. |

# Buddion a mesur effaith

Caiff ein gwaith ei arwain gan y buddion rydym yn eu darparu i'r system cyfiawnder ieuenctid. Rydym yn benderfynol o sicrhau bod popeth rydym yn ei wneud yn cyfrannu tuag at gyflawni pedwar budd cyffredinol sy'n gydnaws â'n swyddogaethau statudol a'n hamcanion strategol.

1. Y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn perfformio'n well er mwyn atal troseddu.
2. Llai o wahaniaethau ar sail hil.
3. Trin plant fel plant a chefnogi eu hawliau, adeiladu hunaniaeth gymdeithasol, cydweithio, a'u dargyfeirio oddi wrth stigma, er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, dioddefwyr a chymunedau.
4. Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn perfformio'n well.

Mae'r buddion hyn yn uchelgeisiol ac (ar wahân i fudd 4) maent yn dibynnu ar berfformiad y system cyfiawnder ieuenctid ehangach, nid y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn unig. O ganlyniad i'w cwmpas a'u graddfa, mae buddion 1-3 yn cael eu tracio dros gyfnod estynedig yn hytrach na dim ond un flwyddyn fusnes.

Er mwyn gwerthuso cynnydd wrth gyflawni'r buddion hyn, rydym yn defnyddio ystod o ddangosyddion meintiol ac ansoddol, gan gynnwys metrigau a mewnwelediad o'n goruchwyliaeth o berfformiad y system a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol, sgorau o arolygiadau gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a gynhaliwyd gan Arolygiaeth (Prawf) EF, dangosyddion perfformiad allweddol y sector cyfiawnder ieuenctid, canlyniadau o brosiectau cyllido wedi'u targedau a phrosiectau ymchwil, a sgorau o archwiliadau thematig Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth.

Ar gyfer budd 4 (y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn perfformio'n well) rydym wedi datblygu set o ddangosyddion perfformiad allweddol mewnol drafft i werthuso ein perfformiad ein hunain a'n galluogi i ddangos tystiolaeth o'n llwyddiannau a thynnu sylw at feysydd lle mae angen i ni wella. Byddwn yn datblygu'r dangosyddion hyn ymhellach a'r ffordd y byddant yn cael eu monitro yn dilyn casgliad yr adolygiad corff cyhoeddus o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a chadarnhad o'n swyddogaethau.

| DPA | Mesur sylfaenol | Mesur targed | Ffynhonnell y mesur | Amlder gwerthuso |
|---|---|---|---|---|
| Cyfartaledd y diwrnodau gwaith a gollir oherwydd salwch yn is na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil | 7.8 y flwyddyn (y flwyddyn yn dod i ben ym mis Mawrth 2024) | Llai na 7.8 ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben yn 2026 | Data'r Gwasanaeth Sifil a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid | Dwywaith y flwyddyn |
| Mae'r sgôr ymgysylltu â phobl yn hafal neu yn fwy na | 63% (2024) | 64% (Meincnod y Gwasanaeth Sifil) | Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil | Blynyddol |

| DPA | Mesur sylfaenol | Mesur targed | Ffynhonnell y mesur | Amlder gwerthuso |
|---|---|---|---|---|
| meincnod y Gwasanaeth Sifil | | | | |
| Cyfraddau gadael yn hafal neu yn is na chyfartaledd y DU | 27.8% (2023/24) | Yn hafal neu'n is nag 16% (2024) | Data'r YJB / Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu | Blynyddol |
| Sgôr cynhwysiant a thriniaeth deg yn hafal neu'n uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil | 77% (2024) | Yn hafal neu yn fwy nag 80% ar gyfer 2025, sef meincnod y Gwasanaeth Sifil | Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil | Blynyddol |
| Lleihad yn nifer y bobl sy'n adrodd am wahaniaethu yn eu herbyn yn y gwaith | 9% (2024) | Llai na 9% ar gyfer 2025 | Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil | Blynyddol |
| Lleihad yn nifer y bobl sy'n adrodd am fwlio ac aflonyddu yn y gwaith | 16% (2024) | Llai na 16% ar gyfer 2025 | Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil | Blynyddol |
| Bylchau cyflog rhywedd ac ethnigrwydd i fod yn llai na 5% | Cyfartaledd enillion yr YJB: Rhywedd: -2%[4] Ethnigrwydd: 5%[5] | Bylchau cyflog rhywedd ac ethnigrwydd i fod yn llai na 5%. | Adroddiad bwlch cyflog | Blynyddol |
| Codi lefel ein hadroddiadau datganiad amrywiaeth | Heb ei ddatgan yn yr YJB: Ethnigrwydd: 11% Anabledd: 11% | Llai na 11% ar gyfer ethnigrwydd ac anabledd heb ei ddatgan yn 2025 | Data mewnol YJB | Blynyddol |

[4] Menywod ar gyfartaledd yn ennill 2% yn fwy na dynion.

[5] Yn y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn ei gyfanrwydd, cydweithwyr gwyn ar gyfartaledd yn ennill 5% yn fwy na chydweithwyr ethnig leiafrifol.

# Monitro a rheoli risg

Rydym yn defnyddio ein Fframwaith Rheoli Risg i nodi, monitro a lliniaru risgiau a allai gael effaith ar ein hymdrechion i sicrhau ein buddion bwriadedig, a chyflawni ein swyddogaeth statudol a'n hamcanion strategol. Mae strwythurau ar lefel Uwch Swyddogion a Bwrdd, a'n Pwyllgor Cyllid, Archwilio, Risg a Sicrwydd, yn darparu goruchwyliaeth bellach er mwyn sicrhau bod ein hymateb yn cael ei reoli'n briodol.


Rydym wedi nodi'r risgiau strategol a ganlyn ar gyfer 2025 - 2026, ac mae gennym gynllun rheoli a lliniaru manwl yn ei le ar gyfer pob un.


| **Risg** |
|---|
| **Risg strategol 1:** Sylfaen dystiolaeth annigonol i ddarparu cyngor cadarn ac effeithiol. |
| **Risg strategol 2:** Methu â chyflawni ein swyddogaeth monitro statudol. |
| **Risg strategol 3:** Methu â chyflawni ein swyddogaeth statudol i gefnogi'r ddarpariaeth TG ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. |
| **Risg strategol 4:** Methu â gwireddu buddion a dangos tystiolaeth o effaith lawn ein gwaith. |
| **Risg strategol 5:** Methu â glynu wrth ein prosesau llywodraethu ar draws y sefydliad gan arwain at ddiffyg disgyblaeth gorfforaethol a methu â manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau. |
| **Risg strategol 6:** Perthynas aneffeithiol gyda'r adran, Llywodraeth Cymru a phartneriaethau ehangach, sy'n effeithio ar gydweithio a chyflawni amcanion. |
| **Risg strategol 7:** Methu â rheoli'r gyllideb yn effeithiol i sicrhau bod ein hadnoddau, gan gynnwys cyfalaf, buddsoddiad wedi'i dargedu, a grant craidd, yn cael eu defnyddio i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl ar wella systemau a chyflawni swyddogaethau statudol. |
| **Risg strategol 8:** Methu â chael digon o staff a/neu staff sydd â'r sgiliau priodol i gyflawni ein cynlluniau strategol a chynlluniau busnes yn effeithiol. |
| **Risg strategol 9:** Arweinyddiaeth aneffeithiol/annigonol ar lefel uwch swyddogion a Bwrdd. |

# Ein cyllid

Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon er mwyn edrych ar yr hyn a gyflawnwyd gennym yn ystod y flwyddyn a’r gwerth rydym yn ei ddarparu â’r arian cyhoeddus a dderbyniwn.

Disgwylir y bydd ein dyraniad cyllidebol ar gyfer 2025 - 2026 fel a ganlyn:





## Y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

| | |
|---|---|
| 10 South Colonnade<br>Canary Wharf<br>London<br>E14 4PU | Adeiladau Llywodraeth Cymru<br>Llys-y-ddraig<br>Parc Busnes Penlle’r-gaer<br>Penlle’r-gaer<br>Abertawe<br>SA4 9NX |

YJB.Enquiries@yjb.gov.uk

